**Adrannau wedi mynd i'r sesiwn.**

iii. **Ystyriwyd Adroddiad Cychwynnol ar Gynllun Teithio, sy'n cynnwys materion megis hyrwyddo cerdded, seiclo, neu rannu ceir, ac mae bellach yn cael ei ystyried gan grwpiau eraill, cyn y ceir ymgynghoriad arall o fewn y Brifysgol.**

## 369. SAFONAU POLISI I'W CYMERADWYO

**Cyflwynwyd crynodeb byr ar bwrpas a gofynion Safonau Polisi ar Reoli Dirgryniad yn y Gweithle, Hyfforddiant a Gwybodaeth ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch, a Theithio Dramor. Cyflwynwyd y sylwadau canlynol:**

i. **Rheoli Dirgryniad yn y Gweithle: Cymeradwywyd y Polisi.**

ii. **Hyfforddiant a Gwybodaeth ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch: Cymeradwywyd y Polisi, yn amodol ar fân ddiwygiadau.**

iii. **Teithio Dramor: Cymeradwywyd y Polisi, yn amodol ar fân ddiwygiadau ac ar sefydlu'r system cymorth ar-lein er mwyn symleiddio'r asesiad risg sy'n ofynnol a threfn yswiriant y Brifysgol.**

## 370. DIWEDDARIAD AR GYNHALIAETH IECHYD I STAFF

**Nodwyd bod yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar i**